Rhifyn 6

Tachwedd 2007

Safonau Ffermio

Cylchlythyr Gwasanaeth Iechyd Anifeiliaid Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd

wrexham COUNCIL CYNGOR wrecsam

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Diogelu'r Cyhoedd

Tafod Glas

Yw haint anifeiliaid yn effeithio ar holl anifeiliaid cnoi cil. Er mai ar ddefaid yr effeithir arnynt fwyaf gwartheg yw prif gronfafamalaidd y feirws. Trosglwyddir y feirws Tafod Glas rhwng ei westeion famalaidd yn bennaf drwy frathiadau rhai mathau o wybed mân (rhywogaethau Culicoides). Mae cyfanswm o 47 gwahanol rywogaeth o culicoid ond dim ond ychydig all gludo'r haint. Mae rhai o'r rhywogaethau hyn yn ffurfio rhan o boblogaeth frodorol pryfaid Ynysoedd Prydain. Mae poblogaeth culicoides yn amrywio ond ar ei uchaf ym misoedd Mai/Mehefin a misoedd Medi/Hydref. Mae eu gweithgareddau dyddiol ar eu huchaf yn ystod toriad y wawr ac yn y cyfnos ac mae'r rhywogaethau brodorol i Ynysoedd Prydain yn bridio o amgylch tail anifeiliaid.

Yn 2006 profodd Ewrop gychwyniad o bwys o'r Haint Tafod Glas Serotype sydd wedi parhau drwy 2007. Yn ei anterth roedd oddeutu 300 o achosion yr wythnos yn cael eu cadarnhau.

Ar 22ain Medi 2007, cadarnhawyd yr achos cyntaf o'r Tafod Glas yn East Anglia. O ganlyniad cynhaliwyd archwiliad epidemiolegol ac ar 28ain Medi fe gadarnhawyd fod yr haint yn cylchredeg yn y boblogaeth anifeiliaid a gwybed mân yn Nwyrain Anglia. Cyflwynwyd rheoliadau symudiadau i geisio atal yr haint rhag lledaenu.

Gyda phob math o reoliadau haint defnyddir gwahanol barthau nawr i reoli symud anifeiliaid. Mae'r rhain wedi eu seilio ar astudiaethau epidemioleg o'r haint a risgiau yn gysylltiedig â lledaenu.

Mae'r parth gwarchod o leiaf 20 km radiws o amgylch eiddo wedi ei heintio.

Mae parth gwyliadwriaeth o leiaf 50 km radiws y tu draw i'r parth gwarchod. Mae symudiadau a ganiateir yn gwahaniaethu rhwng y parthau.

Mae ffin allanol y parth gwyliadwriaeth yn rhedeg ar hyd ffin Cymru/Lloegr gydag eithriadau o amgylch Caer, Croesoswallt a Seven Crossing. I fferm ar ddwy ochr y ffin y PG ystyrir fod y cyfan o'r daliad o fewn y parth.

Ar adeg ysgrifennu hwngall y symudiadau canlynol ddigwydd.

Does dim cyfyngiadau ar symudiadau o fewn Cymru nac i'r Alban. Gellir gwneud symudiadau i Loegr hefyd cyn belled nad yw'r symudiad yn croesi i'r PG.

Caniateir symudiad o Gymru i mewn ac allan o'r parth o dan drwydded gyffredinol. Sut bynnag mae amodau'r symudiad yn amrywio yn dibynnu ar ben y siwrnai derfynol.

Caniateir holl symudiadau eraill i'r parth ar gyfer magu/lladd/gaeafu eto o dan amodau Trwydded Gyffredinol.

Ni chaniateir dim symudiadau allan o'r parthau i fannau glân ag eithrio ar gyfer symudiadau dan reolaeth i ladd-dai.

I aros yn wyliadwrus am

Dafod Glas dylech archwilio eich stoc yn rheolaidd gan ganobwyntio ar leinin gludiog (ceg a thrwyn) a'r band coronaidd.

Os ydych yn amau fod un o'ch anifeiliaid wedi ei effeithio mae'n hanfodol dweud amdano mor fuan â phosibl.

Arwyddion clinigol o salwch yw:-

arllwysiad trwynol / llid yr amrannau / tethi chwyddedig / glafoerio /pen a gwddf chwyddedig /chwyddo a doluriadau'r geg/blinder /cloffni / tymheredd uchel y corff / problemau anadlu

PDF created with pdfFactory trial version www.pdffactory.com

I gael manylion pellach ar drwyddedu, lledaeniad haint neu ffeithiau haint gweler
www.defra.gov.uk
http://new.wales.gov.uk
Neu
Iechyd Anifeiliaid 01286 674144
Safonau Masnach 01978 813767

Helpwch ni i ddileu creulondeb i anifeiliaid a gwella lles

Daeth Deddf Lles Anifeiliaid 2006 i rym yng Nghymru ar 27ain Mawrth 2007. Mae'r Ddeddf hon yn atgyfnerthu deddfwriaeth presennol ac mae'n parhau I fod yn erbyn y gyfraith i fod yn greulon i anifail.

Mae'r gofynion newydd yn y Ddeddf hon yn ei gwneud hi'n ofyn cyfreithiol i sicrhau bod holl anghenion lles anifeiliaid yn cael eu cadw. Mae'r rhain yn cynnwys

- Amgylchedd addas (lle i fyw)
- Diet addas
- Arddangos patrymau ymddygiad cyffredin
- I'w cadw gyda neu ar wahân i anifeiliaid eraill (os yn gymwys)
- I'w diogelu rhag poen, anaf, dioddefaint a haint

Mae'r ddeddf newydd hefyd yn codi isafswm oedran y gall unigolyn brynu anifail i 16 ac yn gwahardd rhoi anifeiliaid fel gwobrau i blant heb oedolyn o dan yr oedran hwn.

Gall unrhyw un sy'n greulon tuag at anifail, neu sydd ddim yn darparu ar gyfer ei anghenion lles gael ei wahardd rhag perchenogi anifeiliaid, gael dirwy hyd at £20,000 a/neu fynd i garchar.

Mae'r ddeddf newydd hon yn ein helpu i weithredu ynghynt i atal creulondeb a gwella lles. Rydym yn dibynnu arnoch chi, clustiau a llygaid y gymuned amaethyddol i gysylltu â ni os ydych yn amau neu'n credu bod rhywun naill ai'n greulon neu ddim yn darparu ar gyfer anghenion eu da byw. Os oes gennych unrhyw ofidiau am les anifeiliaid yn yr ardal cysylltwch â'n desgymorth ar 01978 813774, bydd pob galwad yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

Stoc Cwympedig ar y Fferm

Yn 2003 cyflwynwyd Deddf Rheoliadau (Cymru) Is-Gynhyrchion. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i holl agweddau storio, cludiant a gwaredu is-gynhyrchion anifeiliaid. O gyflwyniad y rheoliadau hyn daeth yn anghyfreithlon i ffermwyr gladdu stoc.

Yn ystod Clwy'r Traed a'r Genau, rhoddwyd caniatâd i gladdu anifeiliaid yn ystod cyfnod cynnar rheoli'r haint. Ers hynny mae'r hawl hwn wedi ei ddileu ac unwaith eto rhaid gwaredu stoc cwympedig drwy dulliau cywir. Mae trafodaethau gyda chasglwyr anifeiliaid cwympedig yn awgrymu bod y nifer o garcasau a gasglwyd yn 2007 ar gyfartaledd i lawr draean ar gasgliadau a wnaed yn 2006.

Gall fod nifer o resymau am y gostyngiad hwn ond bydd swyddogion, pan yn cyflawni archwiliadau fferm, yn talu sylw arbennig i dulliau gwaredu anifeiliaid cwympedig

Cludo Anifeiliaid

Gwelwyd nifer o newidiadau mawr yn dilyn cyflwyno rheoliadau newydd cludo anifeiliaid ym mis Mawrth 2007. Mae angen caniatâd yn awr ar bawb sy'n cludo anifeiliaid 65km fel rhan o weithgaredd economaidd. Mae dau fath o ganiatâd. Math 1 ar gyfer teithiau byr sydd dros 65 km ac hyd at ac yn cynnwys 8 awr o amser. Mae math 2 ar gyfer taith hir sydd ar gyfer teithiau dros 8 awr ynghyd â math 1.

Bydd angen caniatâd ar ffermwyr yn cludo eu stoc eu hunain.

Gellir cael ffurflenni cais am ganiatâd oddi wrth Dîm Lles mewn Cludiant ar 0845 603 8395 neu arlein yn www.defra.gov.uk/animal/welfare

Mae'r ail newid mawr-o reoliadau 5ed Ionawr 2008 yn gofyn i bob unigolyn yn cynnwys ffermwyr yn ymwneud â chludo anifeiliaid dros 65 km (wedi ei ymestyn i 1af Ebrill

PDF created with pdfFactory trial version www.pdffactory.com

Cludiant Anifeiliaid (parhad)

2008 o ganlyniad i achosion o heintiau) yng nghyswllt gweithgaredd economaidd fod wedi eu hyfforddi yn rhannau perthnasol y rheoliadau a derbyn tystysgrif cymhwysedd,

Nid oes Hawliau Teidiau ac mae'r math o gymhwysedd sydd angen eto'n ddibynnol ar hyd taith.

Mae hyfforddiant ac asesu ar gael mewn amryw o golegau amaethyddol drwy ogledd ddwyrain Cymru. Mae ffïoedd am yr hyfforddiant ac asesu ond os ydych wedi cofrestru gyda LANTRA bydd hawl i rai gostyngiadau.

Dau goleg sy'n cynnig hyfforddiant yn y maes yma yw:-

Mae'n amlwg nad yw gyrrwr y cerbyd hwn wedi cael ei hyfforddiant eto!!

Coleg Llysfasi

Rhuthun

Sir Ddinbych

Ffôn 01978 790263

Cysylltiadau Lowri Evans neu Mair Beech

neu

Coleg Garddwriaeth Cymru

Llaneurgain

Yr Wyddgrug

Ffôn 01352 841000

Cyswllt Sara Yarnell

Bioddiogelwch

Ystyr llythrennol Bioddiogelwch yw "Bywyd Diogel". Os ydych yn gweithio neu'n dod i gysylltiad ag anifeiliaid fferm mae bioddiogelwch yn golygu cymryd camau i sicrhau fod arferion glanweithdra da mewn lle.

Mae bioddiogelwch da yn rhan hanfodol o atal lledaeniad neu gyflwyniad haint. Hefyd mae'n gymorth i wella effeithiolrwydd y fferm, amddiffyn ffermydd yn y gymdogaeth a chefn gwlad.

Arferion Bioddiogelwch Da

- Byddwch yn ymwybodol o'r angen am fioddiogelwch
- Gwnewch gynllun iechyd praidd/gyr gyda'ch milfeddyg yn cynnwys eiddo ynysu ar gyfer stoc newydd neu stoc sy'n dychwelyd
- Cadwch lwybrau mynediad, mannau parcio, buarthau, a mannau storio yn lân a thaclus
- Darparwch gyfleusterau diheintio a gwnewch yn siwr fod ymwelwyr yn eu defnyddio
- Sicrhewch fod peiriannau fferm yn lân ac wedi eu diheintio yn arbennig os yn rhannu gyda chymdogion
- Dylid diheintio a glanweithio cludiant anifeiliaid y tu mewn a thu allan ar ôl dadlwytho. Dylid gwneud hyn o fewn 24 awr neu cyn defnyddio'r cerbyd eto
- Pan yn mewn marchnadoedd da byw/sioeau talwch sylw arbennig i fioddiogelwch personol. Peidiwch â gadael yr ardal anifeiliaid heb lanweithio a diheintio unrhyw wisgoedd yn cynnwys esgidiau wedi eu difwyno
- Pan yn defnyddio diheintydd sicrhewch ei fod wedi ei gymeradwyo gan DEFRA/Llywodraeth y Cynulliad a'i ddefnyddio ar raddfeydd gwanhau cywir

Mae llwybr bioddiogelwch da yn angenrheidiol bob amser nid yn unig ar adegau pan fo achos o haint.

Gellir cael gwybodaeth bellach drwy gysylltu â

Safonau masnach 01978 292045

Neu ymweld â gwefannau Cynulliad Cymru / DEFRA

PEIDIWCH Â'I DRACIO'N ÔL

PDF created with pdfFactory trial version www.pdffactory.com

Fforwm Gorfodaeth Iechyd Anifeiliaid Wrecsam

Sefydlwyd y fforwm yn 2004 I wella llinellau cyfathrebu rhwng Cyngor Wrecsam a'r gymuned amaethyddol leol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 15 Tachwedd yng Ngwesty'r Buck, Stryd fawr, Bangor-Is-Coed am 6pm.

Bydd yr agenda sydd heb ei chadarnhau eto yn cynnwys y newidiadau cyfreithiol diweddaraf i iechyd a lles anifeiliaid a chludiant. Gan bwysleisio ar yr effaith a gaiff y fath newidiadau ar rediad dyddiol eich busnes.

Gwahoddir chi draw i gymryd rhan yn y cyfarfod yma i ofyn cwestiynau a mynegi eich gofidiau.

Os hoffech fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Fforwm mae ffurflen ateb wedi ei hamgáu gyda'r cylchlythyr. RHAID PWYSLEISIO, OS YDYCH YN BWRIADU CYMRYD RHAN YNG NGHYFARFOD Y FFORWM, RHAID DYCHWELYD Y BONYN YMATEB ERBYN 9 FED TACHWEDD



Ac i orffen.....Modelau economaidd y byd wedi eu hegluro gan wartheg

SOSIALAETH: Mae gennych 2 fuwch ac rydych yn rhoi un i'ch cymydog.

COMIWNYDDIAETH: Mae gennych 2 fuwch. Mae'r wladwriaeth yn cymryd y ddwy ac yn rhoi peth o'r llaeth i chi.

FFASGIAETH: Mae gennych 2 fuwch. Mae'r wladwriaeth yn cymryd y ddwy ac yn gwerthu peth llaeth ichi.

BIWROCRATIAETH: Mae gennych 2 fuwch. Mae'r wladwriaeth yn cymryd y ddwy, yn saethu un, yn godro'r llall, ac yna'n taflu'r llaeth i ffwrdd.

CYFALAFIAETH TRADDODIADOL: Mae gennych ddwy fuwch. Rydych yn gwerthu un i brynu tarw. Mae eich gyr yn lluosi ac mae'r economi'n tyfu. Rydych yn eu gwerthu ac yn ymddeol ar yr incwm.

SWREALAETH: Mae gennych ddau jiraff. Mae'r llywodraeth yn gofyn ichi gael gwersi harmonica.

CORFFORAETH AMERICANAIDD: Mae gennych ddwy fuwch. Rydych yn gwerthu un a gorfodi'r llall i gynhyrchu cymaint o laeth â phedair buwch arall. Yn diweddarach rydych yn llogi ymgynghorydd i ddadansoddi pam fod y fuwch wedi syrthio'n farw.

CORFFORAETH FFRENGIG: Mae gennych 2 fuwch. Rydych yn mynd ar streic, trefnu terfysg a blocio'r ffyrdd, achos rydych eisiau tair buwch.

CORFFORAETH SIAPANEAIDD: Mae gennych ddwy fuwch. Rydych yn eu hail-ddylunio fel eu bod un rhan o ddeg maint buwch gyffredin ac yn cynhyrchu ugain gwaith yn fwy o laeth. Yna rydych yn creu delwedd gartŵn buwch glyfar o'r enw 'buwchdewchmlaen' ac yn ei farchnata ar draws y byd.

CORFFORAETH AWSTRALAIDD: . Mae gennych ddwy fuwch. Mae'r busnes yn eithaf da. Rydych yn cau'r swyddfa ac yn mynd am ychydig o gwrw i ddathlu.

PDF created with pdfFactory trial version www.pdffactory.com